# TLODI

CEFNOGWCH NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2025

Urdd

## BETH YW NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA YR URDD?

Ers dros ganrif, mae pobl ifanc Cymru wedi galw ar y byd i weithredu ar faterion dyngarol gyda'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da flynyddol.

Cymru yw'r unig wlad yn y byd sy'n anfon neges heddwch gan bobl ifanc i bobl ifanc sy'n adlewyrchu dyheadau'r bobl ifanc yn ein cymdeithas heddiw.

Mae'r neges yn cael ei chynhyrchu a chyflwyno mewn fformat ffilm fer sy'n cael ei ryddhau ar gyfryngau cymdeithasol yr Urdd ar 15 Mai.

## Neges 2025:

### Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn canolbwyntio ar Dlodi.

**Gyda'r argyfwng tlodi plant presennol i'w weld yng Nghymru ac ar draws y byd, mae'r Urdd a phobl ifanc Cymru wedi dewis canolbwyntio ar y mater hollbwysig hwn.**

Gydag 1 ym mhob 3 o blant a phobl ifanc Cymru yn byw mewn tlodi, mae Neges Heddwch 2025 yn datgan yn glir yr angen am newid yng Nghymru ac ar draws y byd.

Daw newid a gweithred o'r gymuned yn gyntaf drwy roi llais i bawb.

Galwn ar y bobl sydd mewn pŵer ar draws y byd i feddwl ac ystyried cenedlaethau'r dyfodol.

Crëwyd y neges eleni gan aelodau'r Urdd a myfyrwyr o Goleg y Cymoedd gyda chefnogaeth Katie Hall o'r band Chroma, elusen Achub y Plant a chrëwyd y ffilm gan Steff Dafydd.

### Cefnogwch y neges ar 15 Mai 2025.

Achub y Plant Save the Children

Coleg y Cymoedd

## SUT I GEFNOGI NEGES 2025

### Cefnogwch ar 15 Mai:

**Rhannwch** a **chefnogwch** ein ffilm bwerus o Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2025 ar y cyfryngau cymdeithasol ar 15 Mai 2025, gan ddefnyddio **#Heddwch2025**

Sefwch gyda phobl ifanc Cymru drwy rannu eich geiriau, eich delweddau neu'ch ffilm o gefnogaeth gyda #Heddwch2025 a **chofiwch ein tagio**.

### Sut i gefnogi cyn 15 Mai:

**Ewch yma i'r wefan ble allwch:**

- Ddarllen a lawrlwytho'r neges mewn dros 50 o ieithoedd gwahanol
- Lawrlwytho ein **pecyn addysg** a chynnal sesiynau gyda phlant a phobl ifanc yn eich ysgol, sefydliad neu gymuned.

### Beth yw'r Urdd?

Urdd Gobaith Cymru yw sefydliad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sydd wedi meithrin dros 4 miliwn o bobl ifanc ers ei sefydlu yn 1922 i ymfalchïo yn eu gwlad ac i fod yn agored i'r byd.

### EISIAU GWYBOD MWY?

**Cysylltwch â ni –**

**heddwch@urdd.org**

**www.urdd.cymru/heddwch**

**Diolch am eich cefnogaeth**